Cyllid & Tollau EF

# Nodiadau ar gyfer llenwi ffurflen 575(T)

## Ynglŷn â'r nodiadau hyn

Cynlluniwyd y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi'ch ffurflen 575(T), 'Hysbysiad trosglwyddo lwfansau Treth Incwm sydd dros ben ar gyfer y flwyddyn dreth ddiwethaf'.

Gallwch drosglwyddo unrhyw Lwfans Pâr Priod a Lwfans Person Dall sydd dros ben i'ch priod neu bartner sifil. Ffurflen 575(T) yw'ch hysbysiad i drosglwyddo'r lwfansau sydd dros ben.

Dim ond os ydych yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil, ac yn byw gyda'ch gilydd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf, y gallwch drosglwyddo lwfansau sydd dros ben i'ch priod neu bartner sifil.

Mae swm y lwfansau sydd dros ben y gallwch eu trosglwyddo yn dibynnu ar eich incwm a'ch lwfansau treth.

Os rhowch hysbysiad i drosglwyddo i ni, efallai y bydd yn rhaid i ni roi gwybod i'ch priod neu bartner sifil beth sydd wedi'i gynnwys yn eich incwm trethadwy.

Os yw'ch incwm yn cynyddu, byddwn fel arfer yn cymryd y lwfansau a drosglwyddwyd oddi wrth eich priod neu'ch partner sifil.

## Lwfans Pâr Priod

Gellir hawlio Lwfans Pâr Priod os cawsoch chi, eich priod neu'ch partner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, ac:

- rydych yn ŵr priod neu'n wraig briod a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005
- rydych yn ŵr priod, gwraig briod neu bartner sifil a briododd neu a ffurfiodd bartneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005, ac roeddech yn byw gyda'ch priod neu bartner sifil am y flwyddyn dreth gyfan yr ydych yn hawlio'r lwfans ar ei chyfer, neu am ran ohoni

Mae'r rheol sy'n ymwneud â byw gyda'ch gilydd hefyd yn berthnasol pan fyddwch yn ystyried trosglwyddo lwfansau sydd dros ben.

Hyd yn oed os nad oeddech yn byw o dan yr un to, gellir eich trin fel petaech yn 'byw gyda'ch gilydd' cyn belled â'ch bod yn dal yn briod neu o fewn partneriaeth sifil, ac nad oes yr un ohonoch yn bwriadu gwneud y gwahaniad yn un parhaol.

## Lwfans Person Dall

Gallwch hawlio'r lwfans hwn yng Nghymru a Lloegr os ydych wedi'ch cofrestru'n berson dall gan eich awdurdod lleol, ac yn anfon y canlynol:

- enw'r awdurdod lleol
- y dyddiad y cawsoch eich cofrestru
- copi o'ch tystysgrif sy'n dweud eich bod yn berson dall neu berson â nam difrifol ar ei olwg (neu ddogfen debyg gan eich meddyg)

Gallwch gael y lwfans o'r flwyddyn gyntaf yr ydych ar y gofrestr ac ar gyfer y flwyddyn cyn y flwyddyn gyntaf, os oes gennych dystiolaeth - fel arfer, y dystiolaeth hon fydd y dystysgrif gan yr offthalmolegydd.

Nid oes gofyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i awdurdodau lleol gadw cofrestri. Y gofyn cyfatebol yw bod yn rhaid i chi fod mor ddall na allwch gyflawni unrhyw waith y mae golwg yn angenrheidiol ar ei gyfer.

Anfonwch dystiolaeth/cadarnhad at:
Talu Wrth Ennill a Hunanasesiad
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST
United Kingdom

Nid oes lwfans ar gael os ydych yn rhannol ddall. Os yw'ch priod neu bartner sifil hefyd wedi cofrestru, yna gall y ddau ohonoch hawlio lwfans. Os na allwch ddefnyddio'ch lwfans yn llawn eich hun, gallwch drosglwyddo'r gweddill i'ch priod neu bartner sifil, hyd yn oed os nad ydyw'n ddall.

## Llenwi'r manylion 'Datganiad o incwm a didyniadau' ar ffurflen 575(T)

### Cyflog o gyflogaeth

Nodwch y cyflog a gafwyd ar gyfer y flwyddyn os buoch yn gweithio i gyflogwr yn llawn amser neu'n rhan amser. Rhowch eich enillion cyn treth.

Os ydych wedi gweithio i fwy nag un cyflogwr yn ystod y flwyddyn, rhowch gyfanswm eich enillion o bob cyflogaeth a nodwch enw a chyfeiriad y cyflogwr diwethaf.

Mae blwch ar wahân ar gael i chi nodi unrhyw enillion achlysurol ar gyfer y flwyddyn.

### Incwm o hunangyflogaeth

Os ydych wedi cael unrhyw incwm o hunangyflogaeth, nodwch swm eich elw. Os oeddech mewn partneriaeth, nodwch fanylion ar gyfer eich cyfran chi o'r bartneriaeth yn unig.

### Pensiynau'r Wladwriaeth

Nodwch symiau unrhyw bensiynau trethadwy'r Wladwriaeth yr oedd gennych hawl iddynt yn y flwyddyn. Er enghraifft:

- Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth
- pensiwn y Wladwriaeth ar sail enillion (SERPS)
- pensiwn graddedig ac ychwanegiad oedran os ydych dros 80 mlwydd oed

Trowch drosodd

### Budd-daliadau'r Wladwriaeth

Os cawsoch Lwfans Ceisio Gwaith neu Gymhorthdal Incwm am gyfnod o ddiweithdra, gweithio tymor byr, diswyddo neu streic, nodwch y cyfanswm a gafwyd yn ystod y flwyddyn a'r math o fudd-dal a gafwyd. Cewch wybod gan eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith faint ohono sy'n drethadwy.

Os cawsoch Fudd-dal Analluogrwydd Trethadwy, nodwch y cyfanswm yr oedd gennych hawl iddo yn y flwyddyn. Ond peidiwch â chynnwys Budd-dal Analluogrwydd y mae swyddfa'r Canolfan Byd Gwaith wedi rhoi gwybod i chi nad yw'n drethadwy. Er enghraifft:

- Budd-dal Analluogrwydd a dalwyd ar gyfer y 28 wythnos gyntaf o analluogrwydd
- os oedd gennych hawl i Fudd-dal Analluogrwydd cyn 13 Ebrill 1995, ac nid ydych wedi cael saib yn eich hawliad

Os cawsoch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, nodwch y cyfanswm trethadwy yr oedd gennych hawl iddo yn ystod y flwyddyn.

### Pensiynau eraill

Nodwch swm llawn unrhyw bensiwn yr oedd hawl gennych ei gael am y flwyddyn gan gyflogwr blaenorol.

Dylech hefyd gynnwys pensiynau o gynllun pensiwn personol neu gontract blwydd-dal ymddeol, pensiwn ar gyfer anafiadau yn y gwaith neu salwch sy'n gysylltiedig â gwaith, pensiynau o dramor, a thaliadau a gafwyd gennych o dan y rheolau Hyblygrwydd Pensiwn.

Dewch o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar eich ffurflen P60, y dylai'ch talwr pensiwn ei rhoi i chi ar ôl diwedd pob blwyddyn dreth, neu ar unrhyw dystysgrif arall o bensiwn a dalwyd a'r dreth a ddidynnwyd.

Peidiwch â chynnwys unrhyw bensiwn sy'n daladwy i'ch priod neu bartner sifil.

### Llog

Os oes gennych gynilion ar y cyd, rhaid i chi nodi'ch cyfran chi o'r incwm yn unig.

**Mae angen i chi gynnwys**:

- llog o gynnyrch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I), sy'n cynnwys
  – Cyfrifon Cynilo Easy Access
  – Cyfrifon Buddsoddi
  – Bondiau Incwm
- llog o dramor nad yw wedi'i drethu, hyd at £2,000
- llog gros a gafwyd o warantau'r Llywodraeth (giltiau) a benthyciadau preifat

**Nid oes angen i chi gynnwys**:

- llog o Dystysgrifau Cynilion NS&I
- llog a bonysau o ISA

gan nad yw'r rhain yn drethadwy.

### Difidendau o gyfranddaliadau mewn cwmnïau yn y DU ac incwm o ymddiriedolaethau unedol

Peidiwch â chynnwys incwm o fuddsoddiadau a ddelir mewn PEP neu ISA gan nad yw'r rhain yn drethadwy.

### Incwm o ystafelloedd wedi'u dodrefnu neu o osod eiddo

Nodwch gyfanswm yr incwm a gafwyd gan yr holl osodiadau o dir ac eiddo, llai cyfanswm y treuliau y gwnaed cais ar eu cyfer. Os ydych yn cael incwm o osod ystafelloedd wedi'u dodrefnu yn eich unig neu brif breswylfa, gall y £4,250 cyntaf o rent gros fod wedi'i eithrio rhag treth. Os felly, dylech hepgor y rhent hwnnw ac unrhyw wariant cysylltiedig o gyfanswm eich incwm.

### Unrhyw incwm trethadwy arall

Nodwch swm unrhyw incwm arall a gafwyd nad ydych wedi'i nodi mewn unrhyw fan arall ar y ffurflen. Hefyd, nodwch enw'r talwr yn y blwch disgrifiad. Os oes mwy nag un talwr, rhowch fanylion ar ddalen ar wahân a'i hatodi i'r ffurflen.

Nodwch fanylion unrhyw daliadau a wnewch y gallwch wneud cais am ryddhad treth ar eu cyfer. Er enghraifft:

- cyfraniadau Rhodd Cymorth a rhoddion o fuddsoddiadau cymwys i elusen
- taliadau cynhaliaeth sy'n gyfreithiol rwymol lle y ganwyd un neu'r ddau barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil cyn 6 Ebrill 1935
- treuliau mewn cyflogaeth

## Rhagor o gymorth

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch neu os ydych yn cael anhawster wrth lenwi'r ffurflen hon, ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/welsh-language-helplines#email-title

## Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy